

# ASTUDIO'R CYFRYNGAU CBAC CYLCHLYTHYR MEDI 2019

Croeso'n ôl i flwyddyn newydd. Gobeithio eich bod wedi mwynhau gwyliau'r haf!

## CYNNWYS

1. Dyfarniad cyntaf
2. Dyddiadau Allweddol 2019-20
3. Deunyddiau ac Adnoddau Cwrs
4. Cyflwyno Asesiad Di-Arholiad
5. Asesiad Di-arholiad - Ymchwil
6. DPP
7. Twitter
8. Swyddi Gwag i Arholwyr/Safonwyr

## DYFARNIAD TGAU AC U2 CYNTAF

Rydym yn hapus iawn ein bod erbyn hyn wedi symud drwy ddyfarniad cyntaf yr holl fanylebau Astudio'r Cyfryngau CBAC diwygiedig, a gwnaed argraff fawr arnom gan y modd y mae canolfannau wedi cefnogi eu hymgeiswyr yn dda iawn drwy ofynion y cymwysterau newydd. Roedd ymgeiswyr ar draws pob lefel wedi dangos eu sgiliau dadansoddi wrth drafod y testunau gosod ac yn eu gallu i ddadadeiladu testunau nad ydynt wedi'u gweld; roedden nhw'n dangos, ar brydiau, dealltwriaeth soffistigedig o bersbectifau beirniadol cymhleth; roedden nhw'n gallu creu cynyrchiadau'r cyfryngau a oedd yn greadigol tra'n dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fframwaith damcaniaethol.

Am fwy o wybodaeth am gyfres arholiadau eleni, gallwch ddarllen adroddiadau'r Uwch Arholwr ar gyfer [TGAU](#) ac [UG/Safon Uwch](#).

## DYDDIADAU ALLWEDDOL ASTUDIO'R CYFRYNGAU 2019-20

Mae dyddiadau allweddol 2019-20 ar gyfer pob lefel Astudio'r Cyfryngau; [TGAU](#) ac [UG/SafonUwch](#) bellach ar gael ar dudalennau Cyfryngau CBAC.

Am holl ddyddiadau CBAC ewch ar [ein tudalen we Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni](#).

## DEUNYDDIAU AC ADNODDAU CWRS

Mae tudalennau gwe Astudio'r Cyfryngau CBAC ar gyfer [TGAU](#) ac [UG/Uwch](#) yn cynnwys y fanyleb a deunyddiau asesu enghreifftiol. Gellir defnyddio dogfennau allweddol eraill i gefnogi'r cyflwyno ar y ddwy dudalen dan 'Deunyddiau'r Cwrs'.

Mae Canllawiau Addysgu cynhwysfawr ar gael ar gyfer bob cwrs ac maent yn cynnwys amlinelliadau enghreifftiol o'r cwrs, rhestri adnoddau/darllen, dulliau addysgu a llawer mwy.

Gellir dod o hyd i adnoddau i gefnogi cyflwyno pob uned dan 'Adnoddau Digidol' ar bob tudalen we neu ar [Wefan Adnoddau CBAC](#).

Mae'r [wefan ddiogel](#) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi addysgu, yn cynnwys deunyddiau o ddigwyddiadau DPP blaenorol, cyn bapurau arholiad a chynlluniau marcio a briffiau asesiadau di-arholiad. Byddwch angen enw defnyddiwr a chyfrinair gan eich Swyddog Arholiadau i gyrchu'r rhain.

Mae gennym [Adolygiad o Arholiadau Ar-lein](#) ar gyfer TGAU, UG a Safon U2, sy'n edrych ar ymatebion i gwestiynau wedi'u dethol o arholiadau 2019 ac sy'n darparu sylwebaeth gan arholwyr.

Mae cyn bapurau a chynlluniau marcio o gyfres 2019 ar gael ar y [wefan ddiogel website](#) dan Adnoddau.

Mae gennym set gynhwysfawr o Gwestiynau CYffredin ar gyfer [UG/Safon Uwch](#) ar gael gan 'Dogfennau Cysylltiedig'.

## CYFLWYNO ASESIAD DI-ARHOLIAD

Hoffem roi gwybod, fel gyda chyflwyniadau Asesiadau Di-arholiad yn 2019, y bydd system e-gyflwyno ar gyfer cyflwyno'r Asesiadau Di-arholiad yn 2020.

Mae taflenni clawr ar gael i'w llwytho i lawr nail ai o [dudalen we TGAU Astudio'r Cyfryngau](#) neu'r [dudalen we UG/Safon Uwch Astudio'r Cyfryngau](#) dan 'Dogfennau Cysylltiedig'.

Sylwer bod fersiwn newydd o'r daflen glawr (**wedi'i llwytho i fyny ym mis Awst 2018**), wedi'i diweddarau fel ei bod yn unol â gofynion GDPR. Y fersiwn hwn sy'n gofyn i ymgeiswyr gasglu llofnodion gan bobl y mae delweddau ohonynt/eu manylion personol yn rhan o'r cynhyrchiad, y dylai ymgeiswyr ei gyflwyno.

## ASESIAD DI-ARHOLIAD – YMCHWIL TGAU 3680QS/3680CS

Bydd gofyn i ddysgwyr ddadansoddi dau gynnyrch y gellir eu cymharu â'r cynhyrchiad o'u dewis. I egluro, ar ôl adolygu amrywiaeth o waith y gyfres hon, cynghorir ymgeiswyr sy'n gweithio mewn opsiynau Print y disgwylir bod dau gynnyrch yn cael eu dadansoddi (h.y. 2 x glawr neu 1 x clawr ac 1 x tudalen gynnwys) yn hytrach na 2 gynhyrchiad llawn (cynnwys x 2, clawr x 2, tudalen ychwanegol x 2) i ganiatáu i ymgeiswyr fod yn ddigon manwl wrth ddadansoddi o ystyried y nifer geiriau.

## DPP

Mae deunyddiau DPP o bob digwyddiad DPP blaenorol, gan gynnwys sesiynau Dulliau Addysgu TGAU ac UG/Safon Uwch 2019, ar gael ar y wefan ddiogel. Gall athrawon gael gafael ar y rhain drwy fynd i Adnoddau > Deunydd Cefnogi Pwnc-benodol yn cynnwys DPP, ac yna drwy ddefnyddio'r hidlyddion i ddod o hyd i ddeunyddiau DPP CBAC ar gyfer TGAU a TAG.

Gallwch nawr archebu lle ar gyfer digwyddiadau DPP eleni, a fydd yn digwydd rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Gallwch gadw lle [yma](#).

## TWITTER

Bellach gallwch dderbyn y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am Astudio'r Cyfryngau CBAC/Eduqas drwy ddilyn ein ffrwd Twitter CBAC/Eduqas Astudio'r Cyfryngau: [@eduqas\\_media](#).

## SWYDDI GWAG ARHOLWYR/CYMEDROLWYR

A oes gennych ddiddordeb gwella eich gwybodaeth am bwnc, cael hyfforddiant helaeth ar asesu a rhwydweithio gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol profiadol, a hynny oll wrth ennill arian? Os felly, efallai y bydd gennych ddiddordeb bod yn arholwr neu'n gymedrolwr TGAU, UG neu U2. Rydym nawr yn recriwtio ar gyfer y gyfres arholiadau 2020; cwblhewch gais ar-lein heddiw neu cysylltwch â [cyfryngau@cbac.co.uk](mailto:cyfryngau@cbac.co.uk) gydag unrhyw gwestiynau.